# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 26 Tachwedd 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig

5 Cwestiynau i un o gynrychiolwyr Comisiwn y Cynulliad

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Alun Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar brosiect newid ffordd Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol ymhob un o'r blynyddoedd ariannol canlynol: 2003/2004; 2004/2005; 2005/2006; 2006/2007; 2007/2008; 2008/2009; 2009/2010. (WAQ55168)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Chwefror 2010***

Mae gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brosiect deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd yn y blynyddoedd ariannol y gwnaethpwyd cais amdanynt fel a ganlyn: 2003/2004: £16,493,391.18
2004/2005: £10,571,163.39
2005/2006: £14,326,784.96
2006/2007: £20,228,515.13
2007/2008: £15,226,324.40
2008/2009: £5,861,000.00
*2009/2010: £1,129,000.00
* hyd yma

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw'r cyfraddau gadael yn gynnar ar gyfer cyrsiau gradd nyrsio ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad am y pum mlynedd diwethaf. (WAQ55156)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Tachwedd 2009***

12.9% oedd y gyfradd gadael cyn gorffen ar gyfer y flwyddyn academaidd 2008/09 ar draws pob cwrs nyrsio rhag-gofrestru yng Nghymru .
Y cyfraddau gadael cyn gorffen am y 5 mlynedd ddiwethaf yw:
2004/05: 16.4%
2005/06: 15.1%
2006/07: 14.5%
2007/08: 14.7%
2008/09: 12.9%

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gyfran o boblogaeth Cymru sydd wedi cael cynnig y brechlyn ffliw moch a pha gyfran sydd wedi derbyn y brechlyn. (WAQ55157)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Chwefror 2010***

Ar gam cychwynnol y rhaglen frechu, caiff y brechlyn ei gynnig i tua 750,000 o bobl (25% o'r boblogaeth) fel mater o flaenoriaeth. Mae trefniadau ar waith i gofnodi nifer y bobl sy'n cael brechiad ym mhob ardal Bwrdd Iechyd, a disgwylir yr adroddiadau cyntaf erbyn diwedd y mis.

Nid oes rheswm gennyf dros gredu y bydd unigolion yn llai parod i gael eu diogelu yn erbyn y rhywogaeth hon o'r firws ffliw nag yn erbyn ffliw tymhorol. Rydym yn gweithio'n agos gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a thrwy'r cyfryngau i sicrhau bod gan bobl y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad hyddysg.

Byddaf yn darparu'r wybodaeth am nifer y bobl sy'n cael brechiad unwaith y bydd ar gael

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau yn sgil profedigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. (WAQ55158)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Chwefror 2010***

Mae'r Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu i asesu'r gwasanaethau profedigaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc. Bydd yr adroddiad terfynol yn gwneud argymhellion gyda'r nod o alluogi pob plentyn neu berson ifanc yr effeithir arno i gael cymorth priodol. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau y flwyddyn nesaf.

**David Melding (Canol De Cymru)**: Pa fesurau sydd ar gael i hyfforddi meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd sylfaenol eraill mewn gofal lliniarol. (WAQ55159)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Tachwedd 2009***

Caiff hyfforddiant mewn gofal lliniarol i feddygon teulu a staff gofal sylfaenol eraill ei nodi drwy arfarniad rheolaidd a datblygiad proffesiynol parhaus; mae hyn yn cynnwys y meddygon iau hynny sy'n cael hyfforddiant i fod yn feddygon teulu fel rhan o'u gofynion cwricwlwm.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ba grwpiau demograffig mewn cymdeithas sy'n fwyaf tebygol o wrthod y cynnig i gael y brechlyn ffliw moch, a pha gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu'u cymryd i gynyddu'r nifer sy'n ei gael o fewn y grwpiau hynny. (WAQ55160)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Chwefror 2010***

Ar gam cychwynnol y rhaglen frechu, caiff y brechlyn ei gynnig i tua 750,000 o bobl (25% o'r boblogaeth) fel mater o flaenoriaeth. Mae trefniadau ar waith i gofnodi nifer y bobl sy'n cael brechiad ym mhob ardal Bwrdd Iechyd, a disgwylir yr adroddiadau cyntaf erbyn diwedd y mis.

Nid oes rheswm gennyf dros gredu y bydd unigolion yn llai parod i gael eu diogelu yn erbyn y rhywogaeth hon o'r firws ffliw nag yn erbyn ffliw tymhorol. Rydym yn gweithio'n agos gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a thrwy'r cyfryngau i sicrhau bod gan bobl y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad hyddysg.

Byddaf yn darparu'r wybodaeth am nifer y bobl sy'n cael brechiad unwaith y bydd ar gael

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog yn comisiynu gwasanaethau i ddarparu mynediad cyflym i bobl sydd â chyflyrau niwrolegol pan mae'u cyflwr yn datblygu'n gyflym. (WAQ55161)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Tachwedd 2009***

Y Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio, sicrhau a darparu gwasanaethau priodol i ddiwallu anghenion cleifion â chyflyrau niwrolegol. Cyfrifoldeb y clinigwyr sy'n eu trin yw'r broses o reoli clinigol ac atgyfeirio pob claf unigol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth mae’r Gweinidog yn ei wneud i ysgogi a chefnogi ymdrechion ymchwil i Glefyd Niwronau Motor. (WAQ55162)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Chwefror 2010***

Mae WORD yn buddsoddi yn Rhwydwaith Ymchwil Demensia a Chlefydau Niwroddirywiol Cymru Gyfan (NEURODEM). Mae gan y Rhwydwaith bortffolio eang o brosiectau ymchwil, ond nid yw ymchwil i Glefyd Niwronau Motor yn rhan o'i bortffolio o brosiectau ymchwil ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n ymwneud a gweithgareddau parhaus i ysgogi ac annog ymchwilwyr yng Nghymru i ymchwilio i'r cyflwr hwn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint sy’n cael ei wario’n benodol ar ofal seicolegol i gleifion sydd â chyflwr niwrolegol. (WAQ55163)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Tachwedd 2009***

Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu'r wybodaeth hon.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o arian gaiff ei ddefnyddio i wella’r gefnogaeth i’r rheini sy’n dioddef o Glefyd Niwronau Motor ac i dargedu gofal lliniarol ar gyfer y rheini sydd â chyflwr niwrolegol dwys. (WAQ55164)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Mae'r gwaith o gynllunio ac ariannu gwasanaethau iechyd i gefnogi pobl â chlefyd niwronau motor, gan gynnwys gofal lliniarol, yn fater i Fyrddau Iechyd Lleol. Fodd bynnag, rwyf wedi cydnabod bod angen gwella mynediad at ofal lliniarol ac ansawdd y gofal hwnnw i bob claf sydd ei angen, gan gynnwys y rhai â chyflyrau niwrolegol fel clefyd niwronau motor. Rwyf wedi cynyddu'r cyllid rheolaidd canolog sydd ar gael ar gyfer gofal lliniarol i £4 miliwn yn 2009-10.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint sy’n cael ei wario’n benodol ar dechnolegau newydd er mwyn cael dealltwriaeth well o’r Clefyd Niwronau Motor yng Nghymru. (WAQ55165)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Chwefror 2010***

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw arian penodol ar gyfer technolegau newydd yn y maes hwn. Ysgrifennais at Aelodau'r Cynulliad ar 16 Hydref i egluro fy mod wedi cael adroddiadau gan Grwpiau Cynllunio Gweithredu Niwrowyddoniaeth Gogledd Cymru a Chanolbarth a De Cymru a chan nodi'r broses i'w gweithredu. Mae'r ddau adroddiad yn gwneud argymhellion yn ymwneud â gwasanaethau i gleifion â chyflyrau niwrolegol, yn cynnwys Clefyd Niwronau Motor.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i wella’r gefnogaeth y tu allan i oriau ar gyfer cleifion Clefyd Niwronau Motor a’u teuluoedd. (WAQ55166)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Chwefror 2010***

Byddai angen i gleifion â Chlefyd Niwronau Motor gael cymorth y tu allan i oriau drwy'r gwasanaethau y tu allan i oriau arferol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i wella mynediad i wasanaethau y tu allan i oriau.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau cynllunio ar gyfer gweithredu'r grant cyfalaf ar gyfer ynni adnewyddadwy dan Glastir. (WAQ55169)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Mae cynllun grant cyfalaf y Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol (ACReS) yn cael ei ddatblygu fel rhan o Glastir. Mae manylion y cynllun grant cyfalaf yn cael eu datblygu o hyd ond rhagwelir y bydd ffermwyr yn gallu gwneud cais am y cynllun hwn pan fydd ganddynt gontract Glastir.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A fydd cynllun grant cyfalaf Glastir ar gyfer ynni adnewyddadwy yn atal ffermwyr rhag elwa o Dariffau bwydo-i-mewn. (WAQ55170)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Mae'r cynllun grant adnewyddadwy arfaethedig yn Glastir yn cael ei gynllunio'n bennaf at ddiben y defnydd o ynni ar ffermydd ac i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, rydym mewn trafodaethau parhaus gyda'r CE ynghylch p'un a ellid gwneud newidiadau i reoliadau neu'r ffordd y'u dehonglir er mwyn i unrhyw ynni dros ben gael ei fwydo i mewn i'r grid cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn trafod y rheolau gweithredol o ran bod yn gymwys am Dariffau Bwydo i Mewn gyda swyddogion o'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd.

## *Gofyn i un o gynrychiolwyr Comisiwn y Cynulliad*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A yw Comisiwn y Cynulliad wedi ymuno â'r Ymgyrch 10:10. (WAQ55167)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

**Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy, Lorraine Barrett AC**: Ydyw. Nod ymgyrch 10:10 yw cefnogi busnesau, sefydliadau ac unigolion i leihau eu hallyriadau 10% yn 2010. I sefydliadau, mae'r cynllun yn gofyn am leihad o 3% o leiaf mewn allyriadau carbon mewn un flwyddyn.

Un o aelodau o Dîm Gwyrdd y Cynulliad a soniodd yn wreiddiol am gymryd rhan yn yr ymgyrch. Mae'r tîm yn cynnwys unigolion o bob rhan o ystâd y Cynulliad (staff y Cynulliad, staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, staff Llywodraeth Cymru a chontractwyr) sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod mentrau a syniadau 'gwyrdd' ynghylch sut y gallwn wella ein perfformiad amgylcheddol.

Cyn ymuno â'r ymgyrch, gwnaethom sicrhau bod y Cynulliad yn bodloni gofynion y cynllun o ran lleihau allyriadau ac rydym yn falch i ddatgan ein bod wedi lleihau ein defnydd o ynni 12% ers y llynedd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y gwelliannau i'r graddfeydd Tystysgrif Ynni ym mhob un o'n hadeiladau. Drwy ein hymrwymiad i'n rhaglen welliannau barhaus o ganlyniad i System Reoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd, rydym yn obeithiol y gallwn wneud lleihad tebyg, os nad gwell, yn 2010 ac ar ôl hynny.

Mae'r cynllun wedi ei hyrwyddo ar y fewnrwyd er mwyn annog unigolion i ymuno ac rydym wrthi'n trefnu cael tynnu ein llun gyda 10:10 er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch yng Nghymru.